



# YSGOL GYNRADD PARC Y BONT

Llanddaniel Fab, Ynys Môn, LL60 6HB

☎ 01248 422350 ✉ pennaeth.parcybont@ynysmon.gov.uk

Pennaeth / *Headteacher*: Mr Iwan Wyn Taylor



10.2.21

Annwyl Rieni,

Yr ydych yn ymwybodol y bydd disgyblion y cyfnod sylfaen yn dychwelyd i'r ysgol ar ôl gwyliau hanner tymor. Yma ar Ynys Môn anelir i ddisgyblion y cyfnod sylfaen ddychwelyd yn raddol i'r ysgol o **ddydd Iau 25/2/21 ymlaen. Bydd y trefniant yma yn cael ei adolygu cyn y dyddiad yma ac fe all newid - gweler y datganiad gan yr Awdurdod ynglŷn â hyn yn atodol.**

Dyma ein hamserlen ar gyfer dychwelyd yn raddol:

**Dydd Llun 22/2/21:** Darpariaeth Dysgu o Bell (gwaith ar-lein)  
**Dydd Mawrth 23/2/21:** Darpariaeth Dysgu o Bell (gwaith ar-lein)  
**Dydd Mercher 24/2/21:** Darpariaeth Dysgu o Bell (gwaith ar-lein)  
**Dydd Iau 25/2/21:** Meithrin, Derbyn, Blwyddyn 1  
**Dydd Gwener 26/2/21:** Derbyn, Blwyddyn 1, Blwyddyn 2  
**Dydd Llun 1/3/21 ymlaen:** Pob disgybl cyfnod sylfaen i fynychu yn unol â'r arfer

Bydd oriau diwrnod ysgol rhwng 8.50yb – 3.00yp fel arfer (gyda'r Dosbarth Meithrin yn mynychu rhwng 8.50yb – 12.00yp). Nid yw trefniadau clwb brecwast na chinio ysgol wedi'u cadarnhau hyd yma – byddaf yn eich diweddarau cyn gynted a daw'r wybodaeth i law.

Bydd sesiynau byw ar Google Meet yn dod i ben i Fl.1a2 yn dilyn eu sesiwn ddydd Mawrth 23/2/21. Bydd tasgau dysgu o bell yn parhau i gael eu darparu yn ystod y diwrnodau na fydd y grwpiau blwyddyn yn yr ysgol.

Bydd pob trefniant arall yn parhau fel ag yr oeddent cyn y Nadolig ac fe fyddwn yn glynnu at ganllawiau gweithredol diweddaraf Llywodraeth Cymru. Hoffwn eich atgoffa o'r canlynol:-

- Bydd rhaid gwisgo gorchudd wyneb pan ar dir yr ysgol
- Cadwch o leiaf 2m o bellter oddi wrth eraill, yn arbennig wrth ddod i nôl eich plentyn ddiwedd y dydd
- Peidiwch â loetran ar dir yr ysgol
- Bydd rhaid gollwng eich plentyn wrth giatiau'r iard rhwng 8.40yb-8.50yb. Bydd angen i'r plant fynd yn syth i'w dosbarth. Rhieni'r dosbarth Meithrin yn unig i gerdded gyda'u plentyn at ddrws y dosbarth os oes rhaid.

Gan y bydd ffenestri'r dosbarthiadau ar agor i sicrhau awyru da, byddai'n syniad i'ch plentyn wisgo haenau o ddillad o dan ei siwmpwr ysgol. Bydd angen côt gynnes hefyd gan fyd mwy o ddefnydd yn cael ei wneud o'r ardal tu allan.

Nid oes unrhyw newyddion ynglŷn â phryd y bydd disgyblion CA2 yn dychwelyd i'r ysgol ar gyfer dysgu wyneb i wyneb. Bydd y ddarpariaeth dysgu o bell yn parhau ar-lein yn ogystal â'r sesiynau byw. **O ddydd Llun 22/2/21 ymlaen, bydd disgyblion Bl.3-6 yn cael sesiynau byw yn ddyddiol – amserlen a gwybodaeth bellach i ddilyn gan yr athrawon dosbarth ar Google Classroom.** Cysylltwch yn uniongyrchol â'r athrawon dosbarth os am ragor o fanylion neu arweiniad ar hyn.

Bydd darpariaeth gofal i blant gweithwyr allweddol a phlant bregus / o dan anfantais yn parhau i fod ar gael o 22/2/21 ymlaen yn unol â'n trefniadau cyfredol.

Os oes ganddoch unrhyw gwestiwn, yna cysylltwch yn syth os gwelwch yn dda.

Cofion,

**Iwan Wyn Taylor**  
(Pennaeth)

## 10.2.21

### **Neges i rieni a gwarcheidwaid**

Mae ysgolion Môn yn parhau i gynnal trafodaethau rheolaidd â Chyngor Sir Ynys Môn ac mae cynllun bellach yn ei le er mwyn gallu croesawu disgyblion Cyfnod Sylfaen yn ôl i addysg wyneb yn wyneb.

Mae holl ysgolion yr Ynys yn gweithio i geisio sicrhau bod plant y Cyfnod Sylfaen yn dychwelyd yn raddol gan ddechrau ddydd Iau, 25 Chwefror.

Ein nod yw bod yr holl ddisgyblion Cyfnod Sylfaen wedi dychwelyd yn raddol i'w hystafelloedd dosbarth erbyn dydd Mercher, 3 Mawrth fan bellaf, bydd dysgu o bell yn parhau hyd nes bydd eich plentyn yn ôl yn yr ysgol.

Gan gofio bod niferoedd yr achosion Coronafeirws yn uchel ar yr Ynys ar hyn o bryd, mae Cyngor Môn wedi pwysleisio y bydd yn cymryd yr holl gamau rhesymol er mwyn diogelu iechyd disgyblion a staff yr ysgolion.

Mae'r trefniadau a nodir uchod felly dal i gael eu hadolygu ac fe allent newid.

Bydd eich ysgol yn eich darparu â manylion pellach ac yn cadarnhau unrhyw drefniadau penodol ar gyfer eich plentyn yn y man. Yn y cyfamser, bydd ysgolion yn parhau i ddarparu dysgu o bell i'r holl ddisgyblion.

**Noder:** Mae mwy a mwy o achosion o'r Coronafeirws wedi eu cysylltu â throsglwyddiad rhwng cartrefi dros yr wythnosau diwethaf. Mae llawer o'r rhain wedi eu hachosi o ganlyniad i deuluoedd neu

### **Message for parents and guardians**

Anglesey schools remains in regular dialogue with the Isle of Anglesey County Council and now have a plan for welcoming Foundation Phase learners.

All schools on the island are working to ensure a **phased return** of Foundation Phase (FPh) pupils can begin on **Thursday, February 25<sup>th</sup>**.

Our aim is that all FPh pupils are back in their classrooms by **Wednesday, March 3<sup>rd</sup>** at the latest, distance learning will continue until your child is back in school.

Given the current high number of Coronavirus cases on the Island, Anglesey Council has made it clear that it will take all reasonable steps to protect the health of pupils and school staff.

The arrangements noted above are therefore still under review and subject to change.

Your school will provide you with further details and confirm any specific arrangements for your children in due course. In the meantime, all schools will continue to provide distance learning to all learners.

**Please note:** More and more positive Coronavirus cases on Anglesey have been linked to transmission in-between homes in recent weeks. Much of this had been caused

ffrindiau yn ymweld â'i gilydd yn gymdeithasol.

by family or friends visiting each other socially.

Mae hefyd yn hanfodol bod eich plant yn osgoi cymysgu â phlant eraill o du allan i'w cartrefi neu swigen gefnogaeth. Mae hyn yn berthnasol i blant o dan 11 oed yn ogystal â phlant dros 11 oed a lle mae plant yn yr un dosbarth neu swigen o fewn yr ysgol.

It is also vital that your child/ren avoid mixing with other children outside their household or support bubble. This applies to under 11s as well as over 11s, and where children are in the same 'school or class bubble'.

Mae canllawiau diweddaraf Llywodraeth Cymru i'w gweld yma:  
<https://llyw.cymru/coronafeirws>

For the latest Welsh Government guidance, visit: <https://gov.wales/coronavirus>

**Cyngor Sir Ynys Môn**

**Isle of Anglesey County Council**